

# Tîm Dyslecsia



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## Dyspracsia

Rydym ar y Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld cyngorwr:

**Ffôn: 01248 383620 / 01248382032**

**E-bost: [gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk](mailto:gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk)**

<http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/dyslexia.php.cy>

**Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau**

Achosir **dyspracsia**, a elwir weithiau yn **Anhwylder yn Natblygiad Cydsymud - Developmental Coordination Disorder (DCD)**, gan wahaniaethau mewn prosesu niwrolol sydd, fel rheol, yn effeithio ar gydsymud: mae'r gair 'praxis' yn golygu 'gwneud a gweithredu'<sup>1</sup>. Gall y rhain achosi problemau gyda lleferydd, symudiad cyffredinol, canfyddiad gofodol, a sgiliau motor manwl.

Mae problemau'n gysylltiedig â dyspracsia'n codi fel rheol gyda'r canlynol:

- Trefnu.
- Rheoli amser.
- Cof - anghofio pethau.
- Prosesu gwybodaeth yn gyflym.
- Cydbwysedd a chydsymud llaw/llygad.
- Rhoi sylw i bethau a chanolbwytio.
- Sensitif i synau, goleuadau a phethau eraill sy'n effeithio ar y synhwyrau.
- Trefn a llif syniadau.
- Lleferydd - gelli'r effeithio ar ynganiad neu gall y lleferydd fod yn rhy gyflym, yn rhy uchel, neu'n rhy araf.
- Problemau gyda'r golwg - trafferth i dracio testun print neu sgimio a sganio i gael gwybodaeth.
- Llawysgrifen, ac weithiau ni ellir gweld uchafiaeth un llaw dros y llall.

"Mae fy nghydsymud yn hynod wael ac mae fy atgyrchion yn araf iawn. Gallaf fod yn bur drwsgl ac rydw i wedi syrthio i lawr grisiau sawl gwaith. Ond roeddwn yn fy elfen yn pwyso'r seiniwr [ar University Challenge]."<sup>2</sup>

Fodd bynnag, yn aml gwelir nifer o gryfderau ymysg myfyrwyr dyspracsig:

- Awydd cryf i lwyddo.
- Penderfyniad.
- Gallu meddwl yn greadigol a gwreiddiol.
- Da am ddatrys problemau.

<sup>1</sup>[www.ox.ac.uk](http://www.ox.ac.uk): cyrchwyd 30 Gorffennaf 2014

<sup>2</sup><http://www.telegraph.co.uk/health/3354324/Dyspraxia-clumsy-but-clever.html>